



# Cofnodion Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF)

**Teitl y cyfarfod:** Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF)

**Lleoliad:** Cyfarfod dros Microsoft Teams

**Dyddiad y Cyfarfod:** 6 Mehefin 2022

**Yn bresennol:**

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Ruth Jenkins, CNC

Marc Williams, CNC

Sarah Hetherington, CNC

Dennis Matheson, TFA

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Anthony Geddes, Confor

John Browne, CNC

Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru

Tim Kirk, Confor

Michelle Van-Velzen, CNC

Huwel Manley, CNC

Elizabeth Swinney, CFFI Cymru

**Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:**

Rachel Jarvis, CNC

Dr Christina Marley, IBERS, Prifysgol Aberystwyth

John Scullion, IBERS, Prifysgol Aberystwyth

Dr. Phil Staddon, Prifysgol Swydd Gaerloyw

Hal Drysdale

Dr Peter Jones, CNC

Dr Rhoswen Leonard, CNC

Hanna Huws, CNC

Dai Jones, H W Forestry Ltd

Jane Ricketts, Cynidr Consulting

Thomas Vetter, CNC

Richard Thomas, Natural England

Geraint Powell

#### **Ysgrifenyddiaeth(au):**

Bronwen Martin, CNC

#### **Ymddiheuriadau:**

Martyn Evans, CNC

Fraser McAuley, CLA

## **Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.
2. Soniodd Zoe fod gan y cyfarfod hwn thema 'pridd' a fydd yn cynnwys amrywiaeth o gyflwyniadau a thrafodaethau gan aelodau a gwesteion.
3. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn cysylltiad â'r eitemau ar yr Agenda.
4. Atgoffwyd y grŵp bod y cyfarfod yn cael ei recordio at ddiben y cofnodion ac y bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu pan fydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cwblhau.

## **Eitem 2 Cofnodion y cyfarfod diwethaf, camau gweithredu a materion sy'n codi**

5. Pan fydd cofnodion y cyfarfod wedi'u hadolygu a'u cytuno yn ffurfiol, byddant yn cael eu cyfieithu a'u cyhoeddi ar wefan CNC. Adolygodd y Grŵp cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2022. Tynnwyd sylw at rai esboniadau a fydd yn cael eu

cynnwys yn y cofnodion cyhoeddedig. Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

6. Nid oedd unrhyw gamau heb eu cymryd i'w trafod.
7. Atgoffodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, y grŵp bod cais wedi dod i law am gyfarfod i drafod ailgyflwyno afancod, a gofynnodd a fu unrhyw gynnydd o ran cytuno ar ddyddiad ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

***PG Mehefin 01: Bronwen Martin, CNC, i fynd ar drywydd y cais am gyfarfod i drafod ailgyflwyno afancod.***

8. Soniodd Anthony Geddes, Confor, nad oedd wedi derbyn manylion cyswllt cydweithwyr CNC sy'n arwain ar ddiweddarau gwefan CNC. Dywedodd Marc y byddai'n mynd ar drywydd hyn.
9. Soniodd Dennis Matheson, TFA, fod Llywodraeth Cymru yn mynd i sefydlu gweithgor ar Denantiaethau. Siaradodd TFA â'r Gweinidog ychydig wythnosau yn ôl, ond ni fydd hyn yn digwydd tan yr hydref ar ôl cyhoeddi'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru) drafft.

### **Eitem 3 Cyflwyniad Priddoedd Confor**

10. Ymunodd Dai Jones, H W Forestry Ltd, â'r cyfarfod i drafod cadwraeth pridd o safbwynt gweithrediadau coedwig. Cyflwynodd Dai ei hun a dywedodd mai ein cyfrifoldeb ni fel Asiantwyr yw diogelu eiddo'r Cleient yn llwyr ac, yn y bôn, ei bridd (prif eiddo).

***PG Mehefin 02: Bronwen Martin, CNC, i ddsbarthu copi o'r cyflwyniad priddoedd a manylion cyswllt Confor.***

11. Dechreuodd Dai drwy drafod trefniadau plannu a phriddoedd newydd. Drwy broses Glastir - Creu Coetir, y peth cyntaf i'w wneud yw llunio Cynllun Rheoli Coetir a fydd yn pennu'r hyn a wneir ar y safle. Yn bennaf, mae cleientiaid eisiau plannu coed brodorol ar gyfer bioamrywiaeth nad yw'n cynnwys gwaith paratoi tir. Os byddwch yn gwneud llawer o waith paratoi tir, bydd yn effeithio ar gyfrifiadau carbon coetir y Cleient.
12. Disgrifiodd Dai y broses o baratoi tir ar gyfer safleoedd, ond nododd nad ydynt yn aredig yn barhaus a'u bod yn ceisio troi'r swm lleiaf o bridd sydd ei angen ar gyfer twmpath.
13. Mae gan bob safle penodol gynllun plannu unigol sydd wedi'i ddylunio a'i dargedu ar gyfer y nodweddion sy'n bresennol (e.e. coed llydanddail brodorol wedi'u targedu mewn ardaloedd lle mae priddoedd gwlypach, llethrau mwy serth a phlannu'n uniongyrchol i'r borfa). Mae sawl ffordd y gellid ystyried cadwraeth pridd wrth nodi'r cynlluniau hyn.
14. Dywedodd Dai fod gan rai gweithrediadau coedwig y potensial i achosi colled/difrod i bridd, megis cynaeafu. Mae amseru gweithrediadau yn bwysig iawn fel bod safleoedd yn cael eu rheoli'n gywir ac yn ofalus. Disgrifiodd Dai rai astudiaethau achos, gan gynnwys enghreifftiau o weithrediadau cynllunio i leihau tracio, cynllunio llwybrau tocion a gwneud gwaith monitro ar y safle. Mae caniatáu gwaith adfer priodol yn agwedd bwysig ar gadwraeth pridd.

15. Agwedd allweddol arall ar gynllunio da yw ystyried a buddsoddi yn y cyfleusterau cywir. Mae hyn yn cynnwys llwybrau priodol ar gyfer cludo nwyddau i mewn/allan a thracio gan darfu cyn lleied â phosibl ar y tir. Trafododd Dai y broses o 'gribinio tocion' a sut i darfu cyn lleied â phosibl ar y pridd a diogelu'r pridd.
16. Gofynnodd Dennis am gadarnhad nad oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer coetir. Dywedodd Dai nad oes angen caniatâd cynllunio i newid defnydd coetir ar hyn o bryd gan fod ganddo ei brosesau rheoleiddio ei hun (e.e. Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, UKFS ac ati).
17. Gofynnodd Ruth Jenkins, CNC, am wybodaeth a hyfforddiant yn y diwydiant a beth arall y gellid ei wneud i gefnogi hyn. Dywedodd Dai fod angen pontio'r hyfforddiant a'r cymwysterau ffurfiol. Mae cyfle i wneud mwy o waith ar draws y grwpiau cyfoedion drwy bethau fel hyfforddiant, mentoriaethau neu interniaethau. Argymhellodd Ruth y dylid cynnwys hyfforddiant ar adrodd problemau er mwyn i bobl allu dysgu o'r digwyddiadau hynny. Awgrymodd Ruth y gallai fod cyfle i ymuno â'r rhai sy'n rheoli Ystad Goed Llywodraeth Cymru drwy drosglwyddo gwybodaeth. Dywedodd Anthony Geddes, Confor, fod dau gyfle: yn gyntaf, drwy hyfforddiant/dysgu parhaus ac, yn ail, drwy wella canllawiau.
18. Dywedodd Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru, fod ffermwyr yn cael eu hannog i blannu coetir ar ran o'u fferm, felly maent yn dod yn goedwigwyr rhan-amser yn y bôn. Gofynnodd Bernard a yw'n fwy o her i ffermwyr o ystyried eu bod eisoes yn rhedeg busnes gyda chyfyngiadau amser a rheoliadau eraill i'w hystyried. Yn gyntaf, dywedodd Dai os oes gan ffermwr ddiddordeb mewn plannu coed, fod sector ar gael i'w helpu ac y bydd yn darparu'r cyngor cywir a phris cystadleuol iawn i wneud pethau'n dda iddynt. Yn ail, dywedodd Dai y byddai'n hoffi gweld y sector ffermio yn helpu gyda'r gwaith tendio ar ôl sefydlu a'r cam ôl-ofal, yn ogystal â chynnal a chadw'r coetir, er enghraifft, tocio, amddiffyn rhag gwiwerod, cynnal a chadw coed ifanc a theneuo cyn ymyrraeth. Dywedodd Dai yr hoffai weld mwy o ffermwyr yn dangos diddordeb yn eu coed a'u coetiroedd. Mae rheoli coetir fferm sy'n bodoli eisoes yn her fawr, ond mae gan ffermwyr lawer o sgiliau trosglwyddadwy eisoes i reoli eu coetiroedd. Roedd Anthony yn cytuno a soniodd y bydd Confor yn cynnal rhai sesiynau byr ddydd Mercher 20 Gorffennaf yn y Sioe Fawr er mwyn helpu ffermwyr i ddeall y cyfleoedd hyn.

Gofynnodd Bernard pe bai ffermwr yn derbyn y model hwnnw, beth fyddai hynny'n ei wneud i broffidioldeb ei fenter. Dywedodd Dai fod proffidioldeb coetir yn y tymor hir yn dibynnu ar sefydlu llwyddiannus ac ôl-ofal da. Mae gan y mathau o goetir fferm sy'n dechrau sefydlu rywffaint o botensial incwm. Gall y sector coedwigaeth helpu i ryddhau rhywfaint o'r gwerth posibl hwnnw drwy weithio gyda ffermwyr.

19. O ran gweithrediadau priddoedd a choedwigaeth, dywedodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, eu bod nhw, fel sefydliad aelodaeth, yn ymwybodol o rai o'r achosion lle mae pethau wedi mynd o chwith, felly mae'n dda iawn bod pobl yn mynd i'r afael â'r materion hyn ac yn siarad am gyfleoedd hyfforddiant a sgiliau.

Dywedodd Rachel ei bod wedi darllen ymchwil diweddar o lwerddon a oedd yn dangos bod tocion a adawyd gan goed wedi'u cwmpo yn ffynhonnell ffosffadau. Gofynnodd Rachel pa waith mae CNC yn ei wneud i edrych ar y mater hwn, yn enwedig yng nghyd-destun yr adroddiad diweddar ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac afonydd sy'n methu.

**PG Mehefin 03: CNC i ddarparu gwybodaeth am y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â ffosforws a rheoli coetir.**

## **Eitem 4 Y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd**

20. Ymunodd Dr Peter Jones, CNC, â'r cyfarfod i roi trosolwg o'r [Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd](#).

**PG Mehefin 04: Bronwen Martin, CNC, i ddosbarthu copi o gyflwyniad y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd a manylion cyswllt.**

21. Dechreuodd Peter drwy ddarparu rhai diffiniadau a dangos rhai delweddau o sampl o graidd mawn a ffordd yn torri drwy orgors. Mae mawn wedi ei wneud o olion planhigion wedi'u dadelfennu'n rhannol yn bennaf, ac mae'n cronni ble bynnag mae amodau dwrlawn yn para'n ddigon hir i atal organebau rhag dadelfennu. Mae nodweddion priddoedd mawn yn golygu eu bod yn cynnwys llawer o garbon; y rhain yw'r priddoedd sy'n cynnwys y mwyaf o garbon ar wyneb y ddaear ac, yn achos mawndiroedd Cymru, mae tua 780 tonnall o garbon yr hectar ar gyfartaledd.

22. Fel arfer, mae mawn yn cronni ar gyfradd o tua 1 milimetr y flwyddyn o'r wyneb i lawr, a dim ond pan fydd lefel trwythiad yn aros yn agos i'r wyneb am ran helaeth o'r flwyddyn y mae hyn yn digwydd. Dim ond lle mae llystyfiant arwyneb y mawndir yn cynnwys rhywogaethau ffurfio mawndir sy'n frodorol i fawndiroedd y mae mawn yn cronni. Gall ystod eang o effeithiau effeithio ar hydroleg mawndiroedd ac, o ganlyniad, y swyddogaeth dal a chadw carbon.

23. Dywedodd Peter, o ran dosbarthiad pridd, ein bod wedi dilyn diffiniad arolwg pridd Cymru a Lloegr o briddoedd mawn, sef y rhai sy'n 'containing either more than 40 centimetres organic material within the upper 80 centimetres of the profile or more than 30 centimetres where the material rests directly on bedrock'. Yn seiliedig ar y diffiniad hwn, mae map mawn diweddaraf Cymru, a gynhyrchwyd eleni gan Brifysgol Cranfield o dan gontract i Lywodraeth Cymru ([Cynhyrchu Map Mawndiroedd Cymru \(LLYW.CYMRU\)](#)), yn amcangyfrif mai cyfanswm ein hadnodd mawndir yw tua 82,200 hectar, sef ychydig yn llai na 4% o arwynebedd tir Cymru. Mae'r map hwn bellach ar gael drwy Borth Mawn CNC a gynhyrchwyd fel rhan o'r Rhaglen Mawn ([CNC - Y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd](#)). Mae hyn yn darparu pob math o adnoddau a gynhyrchwyd fel rhan o gontract Cranfield, yn ogystal â chyflwyno llawer o waith mapio arall CNC sy'n berthnasol i fawndiroedd. Un o elfennau defnyddiol y porth hwn yw map stoc carbon mawndiroedd Cymru, sy'n dangos i ni, er mai dim ond tua 4% o arwynebedd tir Cymru sy'n briddoedd mawn, eu bod yn storio tua 38% o'r carbon yn y pridd.

24. Trafododd Peter gyflwr presennol Mawndiroedd Cymru a dangosodd ddiagram a oedd yn dangos priddoedd mawndir yn gysylltiedig â gwahanol fathau o orchudd tir ledled Cymru. Yna, disgrifiodd Peter yr allyriadau uned nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â phob un o'r mathau hyn o orchudd tir. Amcangyfrifir mai cyfanswm ein hallyriadau sylfaenol ar hyn o bryd yw tua 510 cilotonnall o CO<sub>2</sub> y flwyddyn ac, er mwyn gwireddu'r cyfraniad llawn y gallai mawndiroedd ei wneud at sero net, amcangyfrifir y bydd rhaid i ni leihau hyn tua thraean. Ni fyddai modd gwneud hynny drwy ganolbwyntio'r gwaith adfer ar ein hadnodd cynefin lled-naturiol yn unig ac ni fyddai wedi bod yn bosibl

gwneud hyn yn seiliedig ar yr ymdrech bresennol, felly dyma lle mae'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (NPAP) yn berthnasol.

25. Lanswyd yr NPAP yn 2020, yn y lle cyntaf fel rhaglen bum mlynedd i adfer mawndiroedd Cymru, a dyma brif fecanwaith cyflawni ymrwymiad gweinidogol Llywodraeth Cymru i adfer mawndiroedd Cymru er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a newid hinsawdd ([CNC - Y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, 2020-2025](#)). Yn sail i'r ymrwymiad hwn mae cyfres gynhwysfawr o bolisiau, gan gynnwys 'Polisi 72 – Gweithredu Rhaglen Adfer Mawndiroedd' yn [Llywodraeth Cymru: Cymru Sero Net - Cyllideb Garbon 2 \(2021-2025\)](#). Mae'r agwedd gyflenwi gyfunol hon ar y rhaglen (sy'n mynd i'r afael â natur a hinsawdd) yn adlewyrchu statws penodol iawn mawndiroedd sydd mewn 'cyflwr da' fel ecosystemau hanfodol, ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau mawndiroedd arbenigol a hefyd fel cronfeydd pwysig o garbon pridd a rheoleiddwyr allyriadau nwyon tŷ gwydr i'r atmosffer. Bydd mawndiroedd sydd mewn 'cyflwr da' yn ddalfeydd net carbon, tra bydd mawndiroedd sydd mewn 'cyflwr gwael' (megis mawndiroedd sydd wedi'u herydu) yn cefnogi llawer llai o fioamrywiaeth a gallant fod yn gollwng symiau mawr iawn o nwyon tŷ gwydr carbon i'r atmosffer.
26. Disgrifiodd Peter yr NPAP, sydd â chwe phrif thema gweithredu â blaenoriaeth gyda'r nod o fynd i'r afael â'r prif gyd-destun dirywiad ar draws adnodd mawndiroedd Cymru a gwella cydnerthedd ecolegol mawndiroedd Cymru. Mae 3 thema drawsbynciol arall sy'n adlewyrchu'r angen i wella'n fawr y broses o gydlynu ymdrech o ran cyflawni, monitro, adrodd, gwella dealltwriaeth a chynyddu cymorth ar draws pob sector i'r angen i adfer mawndiroedd. Amlinellodd Peter gynnydd presennol yr NPAP a dangosodd fap o'r prosiectau ledled Cymru. Disgrifiodd Peter rywfaint o'r gwaith a wnaed drwy'r NPAP, gan gynnwys mynd i'r afael ag erydiad mawn drwy adfer lefelau dŵr mewn rhigolau mawn wedi'u herydu a sefydlogi arwynebau mawn.
27. Rhoddodd Peter drosolwg o rai o'r heriau a'r cyfleoedd allweddol, gan gynnwys:
- Graddau'r dirywiad
  - Integreiddio darpariaeth NPAP gyda chyfleoedd Talu am Wasanaethau Ecosystemau (PES) a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS)
  - Cynyddu capasiti a gallu'r sector Rheolwyr Tir a Chontractwyr
  - Creu piblinell o brosiectau i'r dyfodol – Lansio Grant Datblygu'r Rhaglen Mawndiroedd
  - Deall y cyfleoedd a'r cyfyngiadau sy'n berthnasol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r mawndiroedd sydd wedi'u haddasu fwyaf
28. Gofynnodd Geraint a oes angen mwy o wartheg ar yr ucheldiroedd. Dywedodd Peter oes; un o themâu blaenoriaeth yr NPAP yw rheoli ein mawndiroedd ucheldirol yn fwy cynaliadwy, yn enwedig y rhai sy'n cael eu dominyddu gan laswellt, ac mae gan wartheg gyfraniad enfawr i'w wneud.
29. Gofynnodd Elizabeth sut y gall ffermwyr gynorthwyo i atal erydiad mawndiroedd. Dywedodd Peter fod yr opsiynau amaeth-amgylcheddol sydd wedi bod ar gael dros y degawd diwethaf wedi bod yn effeithiol iawn o ran helpu i ddechrau lleihau rhywfaint o'r erydiad y gallm fod wedi'i weld ddegawdau yn ôl oherwydd lefelau stocio uchel. O ran mynd ati i drwsio rhigolau erydu, rydym yn awyddus iawn i siarad â phartneriaid ffermio am y posibilrwydd o ddefnyddio Cytundebau Rheoli Tir Adran 16. Dywedodd Peter fod

sawl un o'r rheini wedi'u defnyddio eleni, ac rydym hefyd wedi bod yn cynnal arolygon drôn er mwyn ceisio mapio erydiad mawn ar ddaliadau tir partner ledled Cymru, felly byddem yn hapus iawn i gael trafodaeth bellach ar hynny.

30. Dywedodd Anthony ei fod yn cofio sylwadau Peter am yr anhawster gwirioneddol o ran cael gwasanaethau contractwyr priodol neu fedrus, ac awgrymodd y gallai hwn fod yn gyfle i gontractwyr coedwigaeth neu gontractwyr ffermio ailhyfforddi neu uwchsgilio ac arallgyfeirio. Gofynnodd Anthony pa gymorth a chyfleoedd hyfforddi sydd ar gael i'r bobl hynny a sut maent yn cael eu hyrwyddo. Dywedodd Peter nad ydym yn rhedeg rhaglen hyfforddi benodol ar hyn o bryd, ond bod hynny'n rhywbeth sy'n cael ei ystyried. Hoffem ddatblygu rhywbeth dros y 6 neu 12 mis nesaf os gallwn ni, ac yna cynnig hynny fel cyfle hyfforddi. Dywedodd Rhoswen Leonard, CNC, fod gennym sawl opsiwn gwahanol i geisio mynd i'r afael â'r broblem hon. Yn gyntaf, rydym yn ceisio datblygu system gaffael wahanol sy'n rhoi mynediad i CNC at gronfa ehangach o gontractwyr ac yn caniatáu i gontractwyr sydd am gamu i'r maes gael ychydig mwy o gyfle gan CNC. Yn ail, mae'r ffordd rydym wedi strwythuro'r rhaglen i gynnig grantiau i bartneriaid yn arallgyfeirio'r contractwyr rydym yn eu defnyddio fel rhaglen. Rydym hefyd wedi bod yn siarad â chontractwyr mewn rhannau eraill o'r DU. Dywedodd Rhoswen ein bod hefyd yn ystyried datblygu cwrs Lantra fel bod gan bobl â sgiliau trosglwyddadwy y darn o bapur priodol fel y gallant ddangos eu profiad, eu gwybodaeth a'u sgiliau, sef y tri math o dystiolaeth sydd eu hangen i gael contractau, pan fyddant yn mynd ymlaen i gaffaeliadau newydd. Dywedodd Anthony y byddai'n awyddus i fynd ar drywydd hyn gan fod llawer o offer coedwigaeth yn segur am gyfnodau mawr o'r flwyddyn a allai fod yn briodol at y defnydd hwnnw.

## Eitem 5 Cyflwyniad Priddoedd Undeb Amaethwyr Cymru

31. Rhoddodd Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru, drosolwg o'r hyn sydd gan y sector amaethyddol i'w gynnig a'i gyflawni ynghylch rheoli, diogelu, gwella a monitro priddoedd. Seiliwyd cyflwyniad Bernard ar 3 thema.

1. Trawsgydymffurfio a rheoleiddio
2. Rheoli pridd i optimeiddio twf cnydau a phroffidioldeb busnes
3. Storio carbon a marchnadoedd y dyfodol.

### ***PG Mehefin 05: Bronwen Martin, CNC, i ddosbarthu copi o'r cyflwyniad priddoedd a manylion cyswllt Undeb Amaethwyr Cymru.***

32. Dywedodd Bernard fod iechyd a bioamrywiaeth pridd yn hollbwysig i ddarparu gwasanaethau ecosystemau a busnesau amaethyddol proffidiol. Mae ffermwyr yn ymwobodol iawn o'r berthynas hon.

33. Amlinellodd Bernard y rheolau trawsgydymffurfio y mae'n rhaid i bob ffermwr sy'n derbyn cynllun y taliad sylfaenol lynu atynt; os na fyddant yn gwneud hynny, gallant wynebu gostyngiad mewn taliadau am dorri'r rheoliadau. Disgrifiodd Bernard sut mae ffermwyr yn wynebu cosbau yn ôl y math o amodau trawsgydymffurfio a dorrwyd, a difrifoldeb yr achos. Yn ôl matrices a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, mae hyn yn gallu bod yn gostus i ffermwr, ac mae'n gweithredu fel rhwystr iddo. Mae proses apelio, ond mae hynny'n anodd iawn i ffermwr. Mae ffermwr yn hau cnwd 8 i 12 mis cyn

cynaeafu, gan ragweld yr amodau mor bell â hynny ymlaen llaw ond, hyd yn oed drwy asesu risg caeau yn ôl llethr a wynebweidd, gall pethau annisgwyl ddigwydd. Dywedodd Bernard ei fod wedi edrych ar adroddiadau Taliadau Gwledig Cymru ar ddsbarthiad yr achosion hyn o dorri amodau trawsgydymffurfio a bod y rhan fwyaf ohonynt yn digwydd mewn contractau Glastir, cofnodion dyddiadur Glastir, cofnodion symud anifeiliaid, cofnodion marwolaethau a phroffion TB, ond nad oes cymaint yn ymwneud â phridd.

34. Rhoddodd Bernard drosolwg o'r gwasanaethau ecosystem mae priddoedd iach yn eu darparu, gan gynnwys cynhyrchu bwyd, rheoleiddio hinsawdd, lleihau perygl llifogydd, puro dŵr ac aer a bioamrywiaeth. Mae amaethyddiaeth yn priodoli i bob un o'r 5 gwasanaeth ecosystem hynny. Soniodd Bernard fod chwarter o fioamrywiaeth y Ddaear, gan gynnwys pryfed genwair, ffyngau a bacteria, yn byw yn y pridd. Mae'r rhyngweithio cymhleth rhwng yr organebau hyn yn cynnal ffrwythlondeb a strwythur y pridd, gyda manteision ychwanegol megis darparu gwrthfotigau. Dywedodd Bernard ei fod wedi synnu i glywed bod 50% o wrthfotigau newydd yn dod o'r pridd.
35. Disgrifiodd Bernard raddau Dosbarthiad Tir Amaethyddol yng Nghymru. Mae'r map dosbarthiad tir yn seiliedig i raddau helaeth ar y math o bridd a'i ansawdd ac mae priddoedd Cymru yn gymharol wael ar y cyfan ond, er y gall rheolaeth pridd dda gynyddu'r allbwn, mae'r rheolaeth honno'n cyfyngu ar y manteision. Mae'n cymryd 100 mlynedd ar gyfartaledd i gynhyrchu 1 centimetr o uwchbridd. Soniodd Bernard mai dim ond tua 7% o'r tir yng Nghymru sy'n addas ar gyfer garddwriaeth, a 10% arall yn addas ar gyfer cynydu â'r grawn. Mae'r rhan fwyaf o Gymru'n addas ar gyfer tyfu glaswellt sy'n cefnogi'r sector da byw ac yn storio carbon. Mae datblygiad Graddau 1, 2 a 3a yn cael ei osgoi er mwyn diogelu'r tir amaethyddol mwyaf cynhyrchiol. Dywedodd Bernard, pan fyddwch yn cymryd y ffigurau hynny a'u cymhwyso i'r daliadau amaethyddol yng Nghymru, fod y data dosbarthiad yn awgrymu bod dros 90% o ddaliadau yng Nghymru naill ai'n ddaliadau 'godro', 'biff' neu 'biff a defaid' oherwydd ansawdd y priddoedd.
36. Crynhodd Bernard yr hyn sy'n gwneud pridd iach, gan gynnwys dwysedd swmp, pH pridd, carbon organig pridd, N pridd a P pridd. Rhoddodd Bernard enghreifftiau hefyd o'r gwahanol ddangosyddion iechyd pridd ar gyfer priddoedd amaethyddol, gan gynnwys deunydd organig, cyfraddau cadw dŵr, pryfed genwair, strwythur ac amrywiaeth ficrobaidd. Disgrifiodd Bernard sut y gall rheoli pridd drwy samplu, asesu a monitro pridd helpu i optimeiddio twf cynydu a phroffidioldeb busnes.
37. O ran storio carbon a marchnadoedd y dyfodol, mae 58% o ddeunydd organig yn ôl pwysau mewn priddoedd yn garbon. Yn ogystal â bod yn ddalfa ar gyfer carbon, mae deunydd organig pridd hefyd yn sbardun pwysig i ffrwythlondeb. Disgrifiodd Bernard yr arferion buddiol ar gyfer priddoedd i gynnal carbon o safbwynt amaethyddol.
38. Mae'n hanfodol ein bod yn adfer iechyd pridd. Dywedodd Bernard fod angen i ni werthfawrogi, cynnal a diogelu'r storffeydd carbon enfawr presennol mewn priddoedd yn hytrach na chanolbwyntio'n llwyr ar gynyddu lefelau dal a storio carbon. Mae perygl y bydd archwiliadau a phrosesau masnachu carbon presennol yn canolbwyntio'r systemau lle gellir cyflawni'r enillion mwyaf (e.e. priddoedd â'r) ond, yn ffodus, mae hynny'n ganran fechan o'r tir sydd gennym yng Nghymru ond, o ganlyniad, byddwn yn tanbriso'r storffeydd carbon presennol o dan laswelltir parhaol.

## **Eitem 6 Prosiect Ymchwil Priddoedd AHDB**



39. Ymunodd Dr. Phil Staddon a Hal Drysdale â'r cyfarfod i roi trosolwg byr a rhannu rhai canlyniadau o'r prosiect – [Best grazing options for soil health \(AHDB/BBSRC net-zero partnership\) | AHDB.](#)

***PG Mehefin 06: Bronwen Martin, CNC, i ddsbarthu copi o gyflwyniad Prosiect Ymchwil Priddoedd a manylion cyswllt AHDB.***

40. Dywedodd Phil fod grŵp o ffermwyr wedi cysylltu ag ef drwy ymgynghorydd i edrych ar rai o'r materion yn ymwneud â phori, rheoli glaswelltir a sut mae hynny'n effeithio ar garbon. Cawsant gyllid o tua £50,000 gan y Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol ac AHDB i edrych yn benodol ar yr agweddau hyn, a'u nod oedd casglu data a thystiolaeth ar wahanol effeithiau gwahanol ffyrdd o reoli eich glaswelltiroedd o ran bioamrywiaeth pridd a charbon pridd.

41. Dywedodd Phil ei fod yn gweithio yn y Brifysgol Amaethyddol Frenhinol a bod y prosiect hwn hefyd yn gydweithrediad â Phrifysgol Swydd Gaerloyw - Countryside Community Research Institute (CCRI). Menter ymchwil dan arweiniad ffermwyr oedd hon a'r nod pennaf oedd mynd i'r afael â'r bylchau mewn tystiolaeth leol a nodwyd gan ffermwyr er mwyn cael mwy o wybodaeth am sut i wella hyfywedd a chynaliadwyedd hirdymor eu ffermydd. Felly, roeddem am weld a allem nodi pethau penodol a oedd yn cael eu gwneud ar rai ffermydd a oedd efallai'n gwella neu'n cynnal lefelau uwch o garbon neu lefelau uwch o fioamrywiaeth yn y system. Pwynt cael grŵp o ffermydd lleol oedd y byddai unrhyw beth y byddem yn dod ar ei draws yn debygol o fod yn berthnasol i ffermydd eraill yn yr ardal leol.

42. Disgrifiodd Phil nod gwyddoniaeth y prosiect, sef nodi'r gwaith rheoli tir pori gorau posibl sy'n gwella iechyd a chynnwys carbon pridd. Felly, mae gan y gwahanol ffermydd naill ai:

- Gwartheg yn unig
- Defaid yn unig
- Cymysgedd o wartheg a defaid

43. Yn ogystal â hynny, mae'r ffermwyr hefyd yn rheoli'r caeau mewn gwahanol ffyrdd; maent naill ai'n cael eu pori mewn cylchdro, eu pori'n barhaus neu eu pori'n drwm. Mae cyfuniad mawr o wahanol ffyrdd y mae'r caeau'n cael eu rheoli o ran pori ym mhob un o'r 11 fferm. Mae gan bob safle hanes gwahanol hefyd, felly mae rhai caeau wedi bod yn laswellt parhaol heb lawer o fewnbynnau ers tri neu bedwar degawd. Mae caeau eraill wedi cael ychwanegiad calch neu ychwanegiad tail.

44. Rhoddodd Phil ddisgrifiad byr o'r dulliau a ddatblygwyd ar y cyd gyda'r ffermwyr. Penderfynwyd y byddai gwaith samplu'n cael ei wneud o fewn y caeau er mwyn casglu data ar ddulliau rheoli'r caeau a hanes y caeau, yn ogystal â data gwirioneddol ar y pridd. Samplwyd cyfanswm o tua 142 o gaeau gwahanol i edrych ar gynnwys carbon a nitrogen. Ar gyfer 83 o gaeau gwahanol, edrychwyd hefyd ar broffilio DNA er mwyn cael darlun o fioamrywiaeth y pridd ond gan edrych yn benodol ar amrywiaeth y ffyngau a'r bacteria. Disgrifiodd Phil rywfaint o'r data i roi syniad i'r grŵp o'r hyn y daeth y gwaith hwn ar ei draws.

45. Soniodd Phil mai prosiect byr oedd hwn a'i fod wedi codi mwy o gwestiynau nag atebion i raddau helaeth. Mae sawl myfyriwr Meistr yn canolbwyntio ar rai o'r themâu i'w hystyried ymhellach.
46. Dywedodd Hal mai un o amcanion y prosiect hwn ar hyn o bryd oedd creu meincnod y gellir ei symud ymlaen a'i fonitro. Ailadroddodd Hal ei bod yn bwysig peidio â dod i gasgliadau byrbwyll cyn dadansoddi'r wybodaeth.
47. Gofynnodd Geraint Powell a oes modd olrhain a mesur carbon pridd yn gywir dros amser. Dywedodd Phil oes, os oes gennych chi'r arian i wneud hynny. Y dull mwyaf cywir a manwl gywir fyddai defnyddio dull labelu isotopau sefydlog ond mae hynny'n dechnegol iawn ac nid yw'n ymarferol ar raddfa fferm; byddai angen i chi gydweithio â gwyddonwyr.
48. Gofynnodd Elizabeth Swinney pa newidynnau oedd yn aros yr un fath. Dywedodd Phil fod pob un o'r caeau'n cael eu rheoli'n hollol wahanol o ran cyfraddau stocio, ychwanegiadau tail, calch a gwrtaith ac amseru.

## Eitem 7 Prosiect PROSOILplus

49. Cyflwyniad gwadd gan Dr Christina Marley (IBERS, Prifysgol Aberystwyth) yn rhoi trosolwg a diweddariad ar [brosiect PROSOILplus](#). Ymunodd Dr John Scullion (IBERS, Prifysgol Aberystwyth) â'r cyfarfod i gefnogi'r drafodaeth.

### ***PG Mehefin 07: Bronwen Martin, CNC, i ddosbarthu copi o gyflwyniad a manylion cyswllt Prosiect PROSOILplus.***

50. Nod y prosiect PROSOILplus yw gweithio gyda ffermwyr ledled Cymru i ddiogelu priddoedd a chynyddu effeithlonrwydd defnydd maethynnau. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ffermydd da byw. Dywedodd Christina fod y dull ymchwil yn seiliedig ar gwestiynau a dderbyniwyd gan ffermwyr, ac yna maent yn cynnal ymchwil gyfranogol ar y fferm. Yn ogystal â hynny, cynhelir astudiaethau rheoledig yn IBERS i edrych ar y cwestiynau ymchwil.
51. O fewn y prosiect, mae rhwydwaith o chwe fferm wedi'u lleoli ledled Cymru sydd ag amryw o leoliadau daearyddol daearegol gwahanol. Mae'r ffermwyr yn cymryd rhan weithredol wrth fonitro'r priddoedd ar eu ffermydd ac yn edrych ar ystod o wahanol arferion rheoli pridd. Mae hyn yn deillio o'u diddordebau eu hunain, felly mae'r prosiect yn chwilio am atebion sy'n cael eu sbarduno gan ffermwyr i wella dulliau rheoli pridd.
52. Dywedodd Christina ei bod yn cofio cyflwyniad Undeb Amaethwyr Cymru am sut y gall rheoli glaswelltiroedd a ffermir ddiogelu priddoedd a chyflawni llawer o wahanol swyddogaethau. Os edrychwn ni ar laswelltiroedd fferm tymherus a deall bod y cloc eisoes yn ticio ar gyfer yr argyfwng hinsawdd hwn, rydym yn chwilio am laswelltiroedd a all ddarparu'r cynhyrchiant sero net hwn.
53. O ran y wyddoniaeth yn y prosiect PROSOIL Plus, un o'r cwestiynau yw sut y gallwn reoli glaswelltiroedd a ffermir i ddiogelu priddoedd fel y gall wedyn gyflawni'r rolau pwysig hyn. Rhoddodd Christina drosolwg o ddwy enghraifft o'r ymchwil, gan ddangos y canlynol:

- Defnyddio porthiannau amrywiol mewn glaswelltiroedd
- Defnyddio dulliau gwahanol ar gyfer adfywio porfa
- Prif nod = diogelu pridd
- Nod cyffredinol = gwella gwasanaethau ecosystem eraill

54. Dywedodd Christina eu bod wedi edrych ar ystod o borthiannau gwahanol. Mae'r rhain yn borthiannau amrywiol gyda systemau llwybro amrywiol, sy'n cynnwys rhygwellt, sef ein rheolydd fel arfer, yna mae gennym ddau godlys, naill ai'r meillion coch neu wyn, ac yna rydym yn cynnwys perllysieuyn â gwreiddiau dwfn, o'r enw sicori. Gall y rhain i gyd gael eu defnyddio o fewn systemau cynhyrchu da byw. Gan adeiladu ar rywfaint o waith cynharach o brosiect y cynnig gwreiddiol, sef gweithio gyda ffermwyr i wella iechyd pridd ledled Cymru, gwnaethom ddangos y gall defnyddio'r porthiannau amrywiol hyn wella bioleg pridd. Dangosodd Christina un enghraifft o sut roedd niferoedd sylweddol uwch o bryfed genwair o dan leiniau sy'n tyfu meillion gwyn. Mae'r data hwn yn dangos ein bod ni hefyd wedi canfod lefelau gwahanol o fesoffawna a microffawna pridd eraill o dan y gwahanol borthiannau hyn. Mae'n dangos yn sicr, o'u rhoi gyda'i gilydd, sut y maent yn ategu ei gilydd ac yn gwella bioamrywiaeth pridd. Y sgil-ffaith arall oedd eu bod nhw hefyd yn dechrau newid strwythur y pridd. Dangosodd rhywfaint o'n gwaith cynharach o'r prosiect PROSOIL, os ydych chi'n symud tuag at y systemau gwreiddio gwahanol o dan y pridd, eu bod yn dechrau newid y gyfradd y gall pridd ymgorffori dŵr yn wyneb pridd y gyfradd ymdreiddiad dŵr. Mae'r goblygiadau i hyn ar lefel tirwedd o ran lliniaru llifogydd a rheoli effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn amlwg i'w gweld.

55. Dywedodd Christina eu bod am adeiladu ar y canfyddiad hwn gyda'r prosiect PROSOIL Plus ac edrych i weld sut mae strwythur y pridd yn newid a hefyd yn gwella cydnerthedd y pridd. Felly, fe wnaethon nhw ddefnyddio'r pedwar porthiant y sonnir amdanynt, ond gan hefyd ychwanegu llyriad, sy'n berlysiuyn gwreiddiau dwfn arall gyda system lwybro wahanol. Fe wnaethom sefydlu'r porthiannau hyn dros gyfnod o dair blynedd, ac roeddem yn monitro newidiadau i'r pridd. Yna, aethant ati i sefydlu porfa rhygwellt pur dros ben y lleiniau. Ar ôl i'r rhygwellt sefydlu'n dda, cafodd un hanner pob un o'r lleiniau ei gywasgu gan beiriannau i geisio edrych ar effeithiau'r porthiannau hyn wrth ddatblygu pridd cydnerth a mesur effeithiau cywasgu. Disgrifiodd Christina y data dwysedd pridd lle roedd y driniaeth a ddefnyddiwyd ganddynt yn llwyddiannus gyda dwysedd pridd uwch o dan yr ardaloedd wedi'u cywasgu ar bob llain. Er mwyn deall sut roedd y porthiannau hynny wedi creu pridd cydnerth, roedd angen iddynt bennu'r effaith ar ymdreiddiad dŵr. Disgrifiodd Christina rai graffiau sy'n dangos effeithiau etifeddol porthiannau ar gyfradd ymdreiddiad dŵr. Dangosodd hyn botensial porthiannau amrywiol i ddiogelu priddoedd a, thrwy hynny, eu gwneud yn fwy cydnerth i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

56. Soniodd Christina am ail arbrawf o fewn y prosiect PROSOIL Plus sy'n edrych ar borfeydd aml-rywogaeth. Fe wnaethant ddefnyddio'r pedair rhywogaeth allweddol y soniwyd amdanynt ond, y tro hwn, roeddent yn eu cynnwys fel rhywogaethau sengl, ond hefyd dau gyfuniad o rywogaethau a hyd at bedwar cyfuniad o rywogaethau. Roedd cyfanswm o 64 o leiniau mewn pedwar dyluniad tebyg ar hap a oedd yn caniatáu i ni edrych ar yr holl newidynnau hynny a sut y maent yn rhyngweithio.

57. Disgrifiodd Christina y canfyddiadau. O ran cyfradd ymdreiddiad dŵr, canfuwyd yr un effeithiau gyda'r pedwar porthiant allweddol hynny gyda chyfraddau ymdreiddiad dŵr

uwch, yn enwedig lle roedd codlysiau o gymharu â'r rhygwellt parhaol. Yr effeithiau a ganfuwyd pan oedd gennym borthiannau mwy amrywiol o fewn y cymysgedd, oedd ein bod yn dechrau ennill y buddion hynny o ran ymdreiddiad dŵr, a ble bynnag roedd codlysiau wedi'u cynnwys eto, ble bynnag roedd meillion coch wedi'u cynnwys, gan roi rhai o'r cyfraddau ymdreiddiad uchaf.

58. Roedd gennym ddiddordeb mewn gwybod a oedd y manteision hyn yn parhau ar ôl i'r porfeydd aml-rywogaeth gael eu hau a beth oedd effeithiau etifeddol y porthiannau hyn. Felly, aethom ati i ail-sefydlu eto dros yr ardal lle roedd y lleiniau'n defnyddio dril uniongyrchol, porfa rhygwellt yn unig, a buom yn edrych ar ba mor hir roedd y manteision hynny'n para o ran iechyd pridd. Mae'r data diweddaraf sydd gennym yn dod o'r ychydig fisoedd diwethaf, lle rydym wedi bod yn monitro sut mae'r porfeydd amrywiol hyn wedi perfformio ar ôl eu hau yn ôl i borfa rhygwellt yn unig i ddylanwadu ar gyfraddau ymdreiddiad dŵr. Yn enwedig, mae cyfuniad o sicori a meillion gwyn wedi dangos budd yng nghyfradd ymdreiddiad dŵr sydd y tu hwnt i'r hyn a gyflawnwyd gan y rhywogaethau porfeydd unigol a oedd yn dangos cyfraddau ymdreiddiad uwch. Dyma un o fanteision porfeydd amrywiol, ond roedd agwedd arall yn edrych ar sut y gallem geisio adfywio porfeydd fel eu bod yn parhau i fod yn broffidiol i ffermwyr, ond hefyd yn diogelu pridd. Mae glaswelltiroedd yn storfa hanfodol o garbon organig sy'n golygu bod bron i 300 gigatunnell o garbon wedi'i storio mewn dim ond yr ychydig gentimetrau hynny o dan laswelltiroedd tymherus. Gigatunnell yw 300,000 miliwn tunnell o garbon, felly mae'r storfa garbon yng nglaswelltiroedd Cymru yn sylweddol ac mae'n gwbl hanfodol bod dulliau rheoli tir i'r dyfodol yn cadw'r carbon sydd gennym eisoes.
59. Dywedodd Christina, o fewn y prosiect PROSOIL Plus, eu bod wedi bod yn edrych ar sut i adfywio porfeydd gan ddefnyddio gwahanol ddulliau sefydlu; naill ai aredig, drilio uniongyrchol, gyda neu heb chwynladdwyr, a cheisio cynnal pridd a gwarchod y carbon yn y pridd. Disgrifiodd Christina rai o'r canfyddiadau.
60. Croesawodd Christina bobl i gysylltu â hi i ddysgu mwy a dywedodd y byddant yn canolbwyntio ar rai o'r astudiaethau cysylltiedig â ffermwr mewn digwyddiad ar 15 Mehefin. Bydd ganddynt stondin yn y Sioe Fawr hefyd. Fe wnaeth Christina hefyd gydnabod yr arianwyr a darparu ei manylion cyswllt.
61. Soniodd Zoe ei bod yn wych clywed am sut maen nhw'n gweithio gyda'r gymuned amaethyddol a dod â gwyddoniaeth a ffermwyr at ei gilydd.

## Eitem 8 Trafodaeth y Panel Priddoedd

62. Dyma gyfle i'r rhai sy'n bresennol ofyn cwestiynau i'r siaradwyr a chael trafodaeth gytbwys ynghylch priddoedd.
63. Dywedodd Ruth ei bod yn ddiddorol clywed y gwahanol safbwyntiau a chael gwybodaeth am yr ymchwil sydd ar y gweill. Mae gennym hanes gwych o ymchwil yn rhai o'r defnyddiau tir a'r systemau rheoli tir yng Nghymru ar gyfer gwahanol fathau o bridd. Mae'r ffocws sydd gennym nawr o ran deall gwerth priddoedd mewn perthynas â chynhyrchu bwyd, cynhyrchu ffibrau a hefyd ar gyfer bioamrywiaeth a bioamrywiaeth y pridd ei hun yn rhywbeth y dylem fod yn ei ystyried ymhellach. Mae'n bwysig dod â'r wybodaeth a'r ymchwil at ei gilydd er budd dealltwriaeth gyffredin. Soniodd Ruth fod rhai o'r bylchau o'r [Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol \(SoNaRR\) Cymru 2020](#) a

gwybodaeth arall a adolygir gan gymheiriaid yn caniatáu i ni ddod i rai casgliadau am ffordd ymlaen ar gyfer rheoli pridd yng Nghymru.

64. Dywedodd Dennis ei fod yn cofio nad oedd sôn am losgi rhostiroedd. Mae llawer o bobl yn credu ei bod yn gwbl hanfodol parhau i gael llosgi mewn ffordd reoledig ond mae hyn yn destun trafod ar hyn o bryd. Soniodd Dennis hefyd fod trafodaeth flaenorol gan randdeiliaid ar sut y gellid ymgorffori taliadau am welliannau i bridd yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) newydd, ond byddai hyn yn anodd i denantiaid.

Awgrymodd Dennis ei bod yn ymddangos bod anghysondeb; er mwyn cadw carbon yn y pridd, rhaid gwneud cyn lleied o waith trin tir â phosibl. Fodd bynnag, roedd y prosiect yn cynnwys glaswelltir parhaol mewn cylchdro â chnydau â'r heb unrhyw aredig. Dywedodd Dennis na allwch wneud hyn os ydych chi am ddefnyddio slyri oherwydd bod rhaid ei ymgorffori o fewn 24 awr o dan reolau newydd Rheoli Llygredd Amaethyddol, felly mae hynny'n gwrthdaro'n uniongyrchol â'r system trin tir. Gofynnodd Dennis a oes unrhyw ymchwil wedi'i wneud o ran rhoi slyri ar dir moel a sut mae hyn yn effeithio ar y fioamrywiaeth.

O ran llosgi, dywedodd Peter mai'r hyn rydym yn ei obeithio yw, wrth i waith adfer mawn fynd rhagddo, ein bod yn lleihau'r risg neu'r risg o danau gwyllt y mae'r systemau hyn fel arfer yn dod ar eu traws pan fydd tir wedi'i adael (dim pori neu ychydig iawn o bori) a phan fo llwyth tanwydd enfawr. Mae cyd-destunau lle mae llosgi yn elfen ddefnyddiol o reoli ond, yn aml iawn, mae'r canfyddiad bod angen llosgi yn gysylltiedig ag ecosystemau sydd mewn gwirionedd yn eithaf diraddiedig yn y lle cyntaf. Yr unig reswm rydym wedi mynd i'r 'arfer' o losgi yw bod priddoedd yn llawer sychach nag y dylent fod oherwydd eu bod wedi cael eu draenio, neu wedi'u haddasu fel arall. Os byddwn yn llwyddo i'w cael nhw i'r cyflwr mae angen iddynt fod i wneud y gorau o'u swyddogaeth cadw a dal carbon, yn ddelfrydol ni fydd angen eu llosgi'n rheolaidd mewn gwirionedd. Dyma ddiweddbwynt eithaf pwysig i anelu ato.

O ran taliadau SFS posibl yn y dyfodol, dywedodd Peter fod rhaid i ni sicrhau bod rheolwyr tir yn cael eu gwobrwyo am reoli mawndiroedd yn gynaliadwy yn barhaus unwaith y bydd y cyfnod adfer cychwynnol wedi'i gwblhau oherwydd dyna sut y byddwn yn sicrhau bod y buddion yn cael eu cadw.

65. Dywedodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, ei bod hi'n anodd iawn, o safbwynt ffermio, dod i unrhyw gasgliadau clir o'r ymchwil a bod gwybod beth yw'r peth gorau i'w wneud yn edrych fel her fawr. Soniodd Rachel am y gwaith parhaus mae NFU Cymru yn ei wneud gyda Llywodraeth Cymru i esbonio bod gwybod eich sefyllfa carbon neu falans net eich fferm yn heriol iawn i ffermwyr ar hyn o bryd gyda chymhlethdod yr holl archwiliadau carbon. Dywedodd Rachel fod gwledydd datganoledig eraill hefyd yn edrych ar hyn mewn perthynas â phriddoedd. Er enghraifft, mae Gogledd Iwerddon ar hyn o bryd mewn rhaglen o samplu pob parcel tir yng Ngogledd Iwerddon i ddeall lefelau maethynnau ond hefyd i ddeall carbon organig pridd. Byddai deall y llinell sylfaen honno yn ddiddorol iawn i ffermwyr ac, oddi yno, gallent ddechrau pennu'r hyn y gallant ei wneud i gynnal lefel y carbon yn y pridd ond hefyd i edrych ar gyfleoedd i'w wella lle bo modd.

66. Dywedodd Huwel Manley, CNC, fod ffocws yn aml ar garbon pridd a'n bod weithiau'n anghofio am yr elfen fioamrywiaeth. Dywedodd Huwel fod llawer o'r gwaith a drafodwyd yn gynharach yn gysylltiedig â gwell lleiniau glas a gofynnodd i Christina a oes unrhyw

waith wedi'i wneud neu waith arfaethedig yn edrych ar laswelltir wedi'i led-wella gydag amrywiaeth rhywogaethau oherwydd, yn aml, y ffordd rydych chi'n cnydio sydd o fudd i gynhyrchu a gwella bioamrywiaeth. Dywedodd Christina y byddai ganddynt ddiddordeb mawr mewn edrych ar yr effeithiau ar draws ystod o briddoedd gwahanol ac edrych ar rywogaethau sy'n cael eu defnyddio o fewn gwahanol systemau amaethyddol i geisio deall sut i gynnal y cynhyrchiant, gwella'r borfa ac, o bosibl, gynyddu'r bioamrywiaeth.

67. Dywedodd John Scullion bod angen i ni gydnabod na allwn ni gyflawni'r holl amcanion gwasanaethau ecosystem hyn mewn un safle. Y broblem gyda hynny yw bod angen nodi ffactorau allweddol, er enghraifft, ble mae'r gwasanaethau hydrolegol a rheoli'r safleoedd ar gyfer hynny yn hytrach na'r syniad hwn eich bod chi'n mynd i weld bioamrywiaeth, storio carbon a gwasanaethau eraill.
68. Gofynnodd Anthony sut rydym yn defnyddio'r holl wybodaeth hon ac yn dechrau creu llinell sylfaen ohoni i ddeall rolau glaswelltir a reolir yn helaeth, glaswelltir a reolir yn ddwys, rôl coedwigo ac, yn y pen draw, edrych ar y cylch bywyd llawn.
69. O ran carbon pridd, gofynnodd Geraint Powell a ydym yn creu polisi o amgylch rhywbeth na ellir ei fesur yn gywir dros amser. Felly, a ddylen ni fod yn dychwelyd at atebion mwy syml yn hytrach nag ychwanegu mwy o gymhlethdod. Dywedodd Christina mai'r brif neges allweddol yw, os ydych chi'n rheoli ac yn gofalu am iechyd eich pridd, byddwch yn dechrau cyflawni'r holl swyddogaethau eraill hyn yn y pen draw. Bydd unrhyw beth sy'n gwella deunydd organig pridd yn gwella strwythur pridd ac iechyd pridd.
70. Diolchodd Zoe i'r holl gyflwynwyr, ac aeth ati i gydnabod ei bod yn ymddangos bod rhai atebion ymarferol yn deillio o'r ymchwil, gydag awgrymiadau i helpu ffermwyr i reoli priddoedd yn dda.

## Eitem 9 Diweddariadau CNC

71. Cyn y cyfarfod, rhannwyd Papur Diweddaru gydag aelodau gydag ychydig o wybodaeth.
72. Dywedodd Ruth fod ffocws mawr ar ddŵr ac ansawdd dŵr ar hyn o bryd. Mae CNC yn dal i weithio drwy'r materion ar gyfer ein hafonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA).
73. Soniodd Ruth fod CNC yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar yr archwiliad dwfn i fioamrywiaeth ac efallai bod rhai aelodau o WLMF hefyd yn ymwneud â rhywfaint o'r gwaith hwnnw.
74. Rhoddodd Ruth adolygiad cryno o'r Papur Diweddaru a gwahoddodd aelodau WLMF i ofyn cwestiynau.
75. Soniodd Dennis mai CNC yw'r corff rheoleiddio ar gyfer y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol newydd a gofynnodd pa mor bell mae CNC wedi cyrraedd o ran sefydlu corff i wneud hyn. Dywedodd Ruth fod CNC yn cael sgysiau parhaus gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â chanfod a darparu adnoddau.
76. Soniodd Rachel, ynglŷn ag Adroddiad Afonydd ACA, ein bod wedi bod yn disgwyl i CNC a Dŵr Cymru gyhoeddi canlyniadau'r modelu ar ddosrannu tarddiad ers sawl mis.

Gofynnodd Rachel a oes dyddiad pendant pan allwn ni ddisgwyl gweld yr adroddiad hwnnw. Mae NFU Cymru wedi bod yn ceisio gweithio gyda Mark Squire, CNC, i gael cyfarfod gyda Dŵr Cymru i ddeall eu llinell sylfaen o ran y rhagdybiaethau defnydd tir, ond nid yw hynny wedi bod yn llwyddiannus hyd yn hyn. Dywedodd Ruth ein bod yn disgwyl yr adroddiad ond ein bod yn dal i wneud ychydig o waith arno. Mae gennym gontract allan ar hyn o bryd i'n helpu ni i wneud rhywfaint o'r gwaith modelu i wneud yn siŵr ein bod mewn sefyllfa i allu gwirio beth sy'n deillio o Dŵr Cymru. Rydym yn gobeithio y bydd hynny'n barod cyn y Sioe Fawr.

Dyweddodd Rachel ei bod yn ymddangos bod newid pwyslais; deallwyd ar y dechrau y byddai CNC yn gweithio gyda Dŵr Cymru i gyhoeddi'r adroddiad hwn; ond ers hynny, mae'n ymddangos mai Dŵr Cymru fyddai'n cyhoeddi'r modelu. Gofynnodd Rachel pwy fydd yn cyhoeddi a phwy sydd â pherchnogaeth dros y gwaith hwn. Dywedodd Ruth mai un adroddiad fyddai, ond mae CNC eisiau bod mewn sefyllfa lle mae modd ei gefnogi. Awgrymodd Rachel y byddai cyfarfod o fudd cyn cyhoeddi.

***PG Mehefin 08: Marc Williams, CNC, i ystyried y posibilrwydd o gydgyssylltu cyfarfod rhwng NFU Cymru, CNC a Dŵr Cymru i drafod adroddiad Afonydd ACA a gwaith modelu.***

## **Eitem 10 Diweddariad gan Undeb Amaethwyr Cymru / NFU Cymru / CFFI Cymru / Confor / CLA / TFA / Llywodraeth Cymru**

- 77. Undeb Amaethwyr Cymru:** Soniodd Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru, am y dyddiad cau o 22 Mehefin i bobl gofrestru i ddefnyddio cynhyrchion diogelu planhigion proffesiynol gyda Defra. Rhaid i bawb gofrestru hyd yn oed os ydych chi'n defnyddio contractwr i ddod allan i'ch fferm i wneud y gwaith. Nid yw'n berthnasol i bobl sy'n defnyddio cnydau â'r neu rawn yn unig; mae'n berthnasol i ffermwyr glaswelltir hefyd.
- 78. NFU Cymru:** Dywedodd Rachel Lewis-Davies fod NFU Cymru yn aros am gamau a strwythur y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a ddisgwylir yn y misoedd nesaf, ynghyd â'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru) rydym yn ei ddisgwyl yn yr hydref.

Yr wythnos hon, mae gennym gyfres o ddigwyddiadau ar y gweill i ddathlu ffermio yng Nghymru; mae hyn yn cynnwys digwyddiad yn y Senedd yfory. Bydd ein hail Gynhadledd Ffermio Cynaliadwy yn cael ei chynnal yn Sir Benfro ddydd Iau. Bydd paratodau wedyn yn amlwg yn troi at y Sioe Fawr lle mae gennym nifer o seminarau ar y gweill o ran gwaith arall. Rydym yn gweithio i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar y cynllun masnachu allyriadau, sydd â nifer o feysydd sy'n berthnasol iawn i ffermio. Roeddem hefyd yn falch o fynd ati, ochr yn ochr ag Undeb Amaethwyr Cymru, i fod yn rhan o ddigwyddiad Perthi ac Ymylon Coed Cadw ychydig wythnosau yn ôl.

- 79. Confor:** Dywedodd Anthony Geddes fod Confor yn brysur yn paratoi at y Sioe Fawr ac yn sicrhau bod ganddynt ystod ddiddorol a chraff o gyflwyniadau. Bydd bwrdd crwn ar ymgysylltu â rhanddeiliaid a sut y gallwn fynd i'r afael â'r cwestiwn o sut rydym yn dechrau'r sgwrs am ymgysylltu a rhannu gwybodaeth am blannu coed. Mae Confor hefyd yn mynychu'r digwyddiad Dathlu Cymru Wledig ar faes y Sioe Fawr yr wythnos hon.

80. **TFA:** Soniodd Dennis Matheson am y gweithgor tenantiaeth yn Lloegr a sefydlwyd ym mis Chwefror. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi'u cynnal bob tair wythnos ac yn adrodd yn ôl i Defra. Mae disgwyl i'r Farwnes Rock roi cyflwyniad ar y cynnydd hwnnw.

Ar hyn o bryd, mae TFA yn trafod gyda Llywodraeth Cymru a oes ganddynt y pwerau cyfreithiol i gynnwys y gwelliannau i gyfraith tenantiaeth, a oedd ym Mil Amaethyddol San Steffan, yng nghyfraith Cymru nawr, cyn i Fil Amaethyddiaeth (Cymru) ddod i rym. Mae TFA yn dadlau y dylent allu gwneud hyn drwy femoranda cydsyniad deddfwriaethol, ond nid yw Llywodraeth Cymru yn credu y gall wneud hynny. Mae hyn yn bwysig iawn gan mai un o'r gwelliannau oedd mecanwaith newydd ar gyfer cael mecanwaith anghydfod gyda landlord ar yr amrywiol bethau y credwch y gellid eu gwneud yn erbyn tenant, er enghraifft, anghydfod ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am storfeydd slyri.

## Eitem 11 Unrhyw Fater Arall

81. Fe wnaeth Sarah Hetherington, CNC, atgoffa'r grŵp bod gan Dŵr Cymru ffenestr agored arall yn eu 'cynllun PestSmart'. Dyma'r cynllun gwaredu plaladdwyr am ddim i ffermwyr a rheolwyr tir yng Nghymru, ac mae cofrestru'n cau ar 31 Gorffennaf 2022.

***PG Mehefin 09: Bronwen Martin, CNC, i ddsbarthu taflen wybodaeth 'PestSmart' Dŵr Cymru.***

82. Cynhelir cyfarfod nesaf y Fforwm ddydd Llun 5 Medi 2022.

## Diwedd y cyfarfod